Casgliadau Rhaglen Ymchwil y Cyng
or Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ar
Ddatganoli a Newid Cyfansoddiadol

Adroddiadau ar Ddatganoli

STV yng Nghymru. Sut y gellid ei weithredu (yn syml), a beth fyddai'r canlyniadau

Adroddiad Rhif 9, Mehefin 2004

Pwyntiau Allweddol

- Yn ei Adroddiad ym Mawrth 2004, cynigiodd Comisiwn Richard y dylid cyflwyno system etholiadol y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV), ond ni fanylwyd ar sut i'w gweithredu.
- Mae'r ddogfen hon yn awgrymu sut y gellir gweithredu STV, trwy gyplu deugain etholaeth bresennol San Steffan yng Nghymru er mwyn cael 20 etholaeth STV a fyddai'n ethol pedwar Aelod i'r Cynulliad.
- Byddai'r dull hwn yn osgoi'r dadlau ynglŷn â ffiniau etholaethol newydd, a byddai'n creu etholaethau cymharol fychan lle gellid parhau'r cysylltiadau etholaethol rhwng cynrychiolwyr a'u pleidleiswyr.
- Wrth ddefnyddio data arolygon ar ddewisiadau pleidiol, gellir gweld beth fyddai canlyniad etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003 petai'r gyfundrefn STV wedi cael ei defnyddio. Dengys y canlyniad gydbwysedd tebyg o ran pleidiau i'r hyn a welwyd yn 2003, ac y byddai pob etholaeth yn cael cynrychiolaeth o fwy nag un blaid wleidyddol.

Cyflwyniad

Roedd Adroddiad Comisiwn Richard, a lansiwyd ar y 31ain o Fawrth 2004, yn cynnig nifer o newidiadau sylweddol i setliad datganoli Cymru. Un o'r prif newidiadau a argymhellir gan yr Adroddiad yw y modd yr etholir Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol. Awgrymir y dylid newid y drefn a ddefnyddir i'w hethol o'r system rhannol-gyfrannol bresennol, sef y System Aelodau Ychwanegol (AMS), i system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV).

Ceir dadl rymus iawn yn yr Adroddiad o blaid newid o'r fath. Ymysg y manteision o ddefnyddio STV yn hytrach nag AMS, gellir nodi:

- Dileu llawer o'r problemau a ddeillia ar hyn o bryd o gael dau gategori gwahanol o aelodau.
- Cadw elfen gref o gynrychiolaeth ac atebolrwydd lleol.
- Cadw elfen gyfrannol yn y drefn bleidleisio.
- Cryfhau yn sylweddol allu etholwyr unigol i ddewis y modd y'i cynrychiolir (trwy ganiatáu iddynt ddewis rhwng pleidiau ac ymgeiswyr)

Fodd bynnag, mae Adroddiad Comisiwn Richard yn amwys ynglŷn â sut *yn union* y gellid gweithredu STV yng Nghymru. Y cwbl a ddywedir yn yr adran berthnasol (ym Mhennod 12) yw mai:

> ***Mater i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru fydd pennu maint a ffiniau'r etholaethau STV...dylai ystod o bedwar i chwe Aelod (ac, yn eithriadol, tri mewn rhai ardaloedd) i bob etholaeth greu cydbwysedd rhesymol rhwng atebolrwydd lleol a chyfranoldeb (t. 239)***

Yn yr hyn sy'n dilyn, fe geisiwn symud y tu hwnt i'r cynnig penagored yma. Awgrymwn sut yn union y gellid gweithredu trefn STV ar gyfer ethol Cynulliad Cenedlaethol ag iddi 80 aelod. Wedi egluro'r drefn, awn ymlaen i drafod ei chanlyniadau etholiadol tebygol.

Y Cynnig

Mae'r awgrym yn un syml ac eglur. Cynigiwn y dylai Cynulliad Cenedlaethol 80 aelod gael ei ethol trwy *ugain etholaeth STV ag iddynt bedwar Aelod yr un*. Gellir creu'r etholaethau hyn yn syml iawn trwy 'gyplu' deugain etholaeth presennol San Steffan/Cynulliad Cenedlaethol.

Yn y mwyafrif llethol o achosion, ni ddylai dewis pa etholaethau y dylid eu cyplu a'i gilydd brofi'n orchwyl anodd. Ceir awgrym cychwynnol gennym yn **Atodiad 1** isod. Yr hyn sy'n bwysig i'w nodi *yw nad ydyw canlyniadau etholiadol STV yn dibynnu ar yr union ddewisiadau a wneir wrth greu cyplau* .

Mae nifer o ganlyniadau yn llifo'n uniongyrchol o'r cynnig hwn. Credwn fod nifer ohonynt yn amlwg fuddiol; gyda eraill yn fwy dadleuol efallai:

- *Byddai'r etholaethau STV yn gymharol fychan*. Ni fyddai poblogaeth unrhyw un o'r 20 etholaeth STV yn cynnwys llawer mwy na 100,000 o etholwyr, ac ni

fyddai unrhyw un ohonynt yn eithriadol o fawr mewn termau daearyddol. (Brycheiniog a Maesyfed/Trefaldwyn fyddai'r mwyaf, sy'n ardal llai o ran maint na nifer o etholaethau yn yr Alban.) Byddai'r etholaethau STV lawer yn llai na'r Rhanbarthau Rhestr presennol. Yn wir, o ddefnyddio unrhyw gymhareb ryngwladol, etholaethau cymharol fychan fyddai'r rhain.

- Cyplu etholaethau presennol fyddai'r *ffordd fwyaf didramgwydd o symud tuag at gyfundrefn STV* – gellid osgoi dadlau ynglŷn â ffiniau etholaethau STV newydd.
- *Byddai cyplu yn caniatáu ymddangosiad sawl etholaeth 'naturiol'*. Mae dwy etholaeth Abertawe a dwy sedd Casnewydd, er enghraifft, yn unedau amlwg a naturiol.
- Ymhob un o'r etholaethau STV, *byddai mwy nag un plaid wleidyddol yn sicrhau cynrychiolaeth.*
- *Byddai creu etholaethau STV ar sail etholaethau presennol San Steffan yn ei gwneud yn llai tebygol y gwelid lleihau yn nifer yr ASau o Gymru a ddanfonir i Lundain yn y dyfodol* gan y byddai newid nifer yr ASau Cymreig yn golygu drysu trefniadau etholaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Dylid pwysleisio *nad* yw'r argymhelliad y dylid cyplu etholaethau yn creu unrhyw rwystrau sylweddol i'r broses o adolygu ffiniau etholaethau sy'n digwydd yn achlysurol. Cyn belled a bod Cymru yn parhau â 40 sedd yn San Steffan, gallai'r gyfundrefn o gyplu barhau (ac yn wir, mater syml fyddai sicrhau adolygiad achlysurol o ba etholaethau y dylid eu cyplu, ochr yn ochr ag adolygiadau o'r ffiniau).

Y Canlyniadau Etholiadol

Mae'n amhosibl rhagweld *union* ganlyniadau cyfundrefn etholaethol gan na all unrhyw un ragweld yr union amgylchiadau gwleidyddol a fydd yn bodoli pan gynhelir etholiad yn y dyfodol.

Gellir, fodd bynnag, gymharu ein hawgrym ni ynglŷn â sut y gellid gweithredu cyfundrefn STV hefo'r canlyniad a gafwyd yn 2003 trwy'r gyfundrefn AMS. Y mae ein dadansoddiad wedi ei seilio ar y nifer o bleidleisiau a enillwyd gan bob plaid yn y bleidlais etholaethol ym Mai 2003.

Yr ydym yn cymryd yn ganiataol y byddai pob plaid wedi ennill yr un nifer o bleidleisiau 'dewis cyntaf' yn y gwahanol etholaethau ar y bleidlais etholaethol (yn hytrach na'r bleidlais rhestr) ag y gwnaethant yr adeg honno. Rydym hefyd wedi gwneud nifer o dybiaethau ynglŷn â sawl ymgeisydd o bob plaid a fyddai'n sefyll yn yr etholaethau STV, a sut y byddai etholwyr yn trosglwyddo eu pleidleisiau. Fe'i nodir yn **Atodiad 2**.

Ar sail y tybiaethau yma, yr ydym wedi amcangyfrif canlyniad Mai 2003 petai'r etholiad hwnnw wedi ei chynnal o dan drefn STV. Fe'i gwelir yn y tabl isod ochr yn ochr â'r canlyniadau a gynhyrchwyd gan y gyfundrefn AMS.

Plaid	AMS Canlyniad	STV Amcangyfrif
Llafur	30	40
Ceidwadwyr	11	12
Democratiaid Rhyddfrydol	6	8
Plaid Cymru	12	19
Eraill	1	1
Cyfanswm	60	80

Gwelir fod y canlyniad a geir trwy STV yn debyg iawn i'r hyn a geir gan drefn AMS. Caiff pob un o'r prif bleidiau ganran debyg o seddi. O safbwynt cyfranoldeb (*proportionality*), felly, byddai canlyniadau y math o drefn STV a awgrymir gennym ni yn debyg iawn i'r drefn AMS. O ddefnyddio 'Mesur Gallagher' ar gyfer cymharu cyfranoldeb gwahanol systemau pleidleisio y mesur ar gyfer STV yw 8.6, o'i gymharu ag 8.7 canlyniad AMS y llynedd.

Casgliad

Fel a ddangosir yn Adroddiad Comisiwn Richard, mae gan STV fanteision sylweddol dros gyfundrefnau pleidleisio eraill, gan gynnwys y drefn AMS. Fodd bynnag, nid yw'r Adroddiad wedi manylu ynglŷn â sut y gellid gweithredu trefn o'r fath.

Rydym wedi argymell dull o weithredu STV yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn ogystal â holl fanteision cyffredinol STV, credwn fod o leiaf ddwy fantais sylweddol iawn yn deillio o nodweddion penodol ein cynnig:

- Mae'n syml, yn eglur a gellid ei weithredu yn syth heb ddadleuon hirwyntog a checrus ynglŷn â ffiniau etholaethol.

- Byddai'n sicrhau lefel o gyfranoldeb sy'n syndod o debyg i'r hyn a geir wrth ddefnyddio'r drefn bleidleisio a gytunwyd arni yn Refferendwm 1997. O'r herwydd, byddai'n cynnal yr egwyddor sylfaenol y dylid ethol y Cynulliad trwy drefn bleidleisio sy'n sicrhau elfen o gyfranoldeb.

Hyderwn y rhoddir ystyriaeth i'r cynnig.

Atodiad 1:
Awgrymiadau o ran cyplu Etholaethau a'u Canlyniadau Tebygol

Etholaethau	**Canlyniadau Tebygol**
Ynys Môn/Conwy	2 Plaid Cymru, 1 Llafur, 1 Ceidwadwr
Caernarfon/Meirionnydd Nant Conwy	3 Plaid Cymru, 1 Llafur
Gorllewin Clwyd/Dyffryn Clwyd	2 Llafur, 1 Ceidwadwr, 1 Plaid Cymru
Delyn/Alun a Dyfrdwy	2 Llafur, 1 Ceidwadwr, 1 Dem-Rhydd
Wrecsam/De Clwyd	2 Llafur, 1 Annibynnol, 1 Plaid Cymru
Trefaldwyn/Brycheiniog a Maesyfed	2 Dem-Rhydd, 1 Ceidwadwr, 1 Llafur
Ceredigion/Preseli Penfro	1 Plaid, 1 Llafur, 1 Dem-Rhydd, 1 Ceid
D. Caerfyrddin a Dinefwr/G. Caerfyrddin a De Penfro	2 Plaid Cymru, 2 Llafur
Llanelli/Gŵyr	2 Llafur, 2 Plaid Cymru
Abertawe (Gorllewin a Dwyrain)	2 Llafur, 1 Dem-Rhydd, 1 Plaid Cymru
Castell-nedd/Aberafan	3 Llafur, 1 Plaid Cymru
Pen-y-bont ar Ogwr/Ogwr	2 Llafur, 1 Ceidwadwr, 1 Plaid Cymru
Rhondda/Cwm Cynon	3 Llafur, 1 Plaid Cymru
Pontypridd/Bro Morgannwg	2 Llafur, 1 Ceidwadwr, 1 Plaid Cymru
Gorll. Caerdydd/ Gog. Caerdydd	2 Llafur, 1 Ceidwadwr, 1 Dem-Rhydd
Canol Caerdydd/De Caerdydd a Phenarth	2 Llafur, 1 Ceidwadwr, 1 Dem-Rhydd
Merthyr/Caerffili	3 Llafur, 1 Plaid Cymru
Blaenau Gwent/Islwyn	3 Llafur, 1 Plaid Cymru
Casnewydd (Gorllewin a Dwyrain)	2 Llafur, 1 Ceidwadwr, 1 Dem-Rhydd
Mynwy/Torfaen	2 Llafur, 2 Ceidwadwr

Atodiad 2:
Tybiaethau a wnaed wrth Amcangyfrif Canlyniad Etholiad STV

Mae ein hamcangyfrif o ganlyniad etholiad STV yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

1. Ym mhob pâr o etholaethau, caiff pob plaid yn union yr un nifer o bleidleisiau dewis cyntaf ag y cawsant yn y bleidlais etholaethol ar gyfer pob etholaeth ym Mai 2003.
2. Byddai 3 ymgeisydd gan bob plaid ym mhob etholaeth STV.
3. Byddai cyfanswm pleidleisiau pob plaid mewn etholaeth STV yn cael eu rhannu rhwng pob un o'r 3 ymgeisydd yn ôl y canrannau canlynol: 0.7, 0.2, 0.1.
4. Byddai pob pleidleisydd yn trosglwyddo pleidleisiau i ymgeisydd o'r un blaid yn y lle cyntaf..
5. Os yw ymgeiswyr un plaid yn cael eu bwrw allan yna bydd pleidleisiau'r blaid honno yn cael eu trosglwyddo i'r pleidiau eraill yn gyson â'r ganran o gefnogwyr y blaid honno a dywedodd wrth Arolwg Etholiad Cymru 2003 eu bod yn ystyried plaid arall yn ail ddewis (fe nodir yr union ganrannau ar gyfer y pleidiau islaw). Er enghraifft, dywedodd 46% o'r pleidleiswyr Llafur a holwyd gennym mai'r Democratiaid Rhyddfrydol oedd eu hail ddewis. Felly rydym yn tybio y byddai 46% o unrhyw bleidleisiau Llafur a fyddai'n weddill – os nad oes unrhyw ymgeisydd Llafur yn weddill – yn cael eu trosglwyddo i ymgeiswyr y Democratiaid Rhyddfrydol.
6. Mae'r union ffigyrau ar gyfer trosglwyddiadau pleidlais fel a ganlyn:
   Llafur: 46% o unrhyw bleidleisiau sy'n weddill i'r Democratiaid Rhyddfrydol; 36% i Balid Cymru; a 10% i'r Ceidwadwyr. Ni throsglwyddwyd y pleidleisiau eraill oedd yn weddill wedi hyn (sef y ganran o bleidleiswyr Llafur yn Arolwg Etholiad Cymru 2003 nad oedd yn fodlon nodi ail ddewis).
   Plaid Cymru: 40% o unrhyw bleidleisiau sy'n weddill i'r Blaid Lafur; 30% i'r Democratiaid Rhyddfrydol; 19% i'r Ceidwadwyr. Ni throsglwyddwyd y pleidleisiau eraill oedd yn weddill wedi hyn.
   Ceidwadwyr: 38% o unrhyw bleidleisiau sy'n weddill i'r Democratiaid Rhyddfrydol; 24% i Blaid Cymru; 19% i Lafur. Ni throsglwyddwyd y pleidleisiau eraill oedd yn weddill wedi hyn.
   Democratiaid Rhyddfrydol: 45% o unrhyw bleidleisiau sy'n weddill i'r Blaid Lafur; 27% i Blaid Cymru; 9% i'r Ceidwadwyr. Ni throsglwyddwyd y pleidleisiau eraill oedd yn weddill wedi hyn.
   Wrecsam/De Clwyd: Yn achos arbennig Wrecsam/De Clwyd, trosglwyddwyd pleidleisiau John Marek sy'n weddill yn ôl y canrannau canlynol: 0.3 i Lafur, 0.3 i Blaid Cymru, 0.3 i'r Democratiaid Rhyddfrydol a 0.1 i'r Ceidwadwyr.

Ysgrifennwyd yr *Adroddiad* hwn gan Richard Wyn Jones a Roger Scully, dau Uwch-ddarlithydd yn Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Adeilad Llandinam, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3DB, sgc.iwp@aber.ac.uk, Ffôn: 01970 622336, Ffacs: 01970 622709. Mae'r adroddiad wedi ei seilio ar waith a wnaed ar gyfer Arolygon Etholiadau Cymru 2001/2003 ac a gyllidwyd gan Raglen Datganoli a Newid Cyfansoddiadol y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Sefydlwyd Rhaglen Ddatganoli a Newid Cyfansoddiadol yr ESRC yn 2000 i ymchwilio i'r gyfres o ddiwygiadau gwleidyddol sy'n gyfrifol am sefydliadau gwleidyddol newydd yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon, Llundain a rhanbarthau eraill o Loegr ers 1997. Mae'r Rhaglen hon wedi comisiynu 35 o brosiectau ar hyd a lled y Deyrnas Gyfunol i gyflawni ymchwil academaidd o'r radd flaenaf a chyfrannu i'r trafodaethau polisi ynglŷn â datganoli.

Am wybodaeth bellach, gweler gwefan y Rhaglen ar www.devolution.ac.uk neu cysyllter â Chyfarwyddwr y Rhaglen, Yr Athro Charlie Jeffery yn yr ESRC Devolution Programme, Institute for German Studies, University of Birmingham, Birmingham B15 2TT. Ffôn: 0121 414 2992, ffacs 0121 414 2992, ebost devolution@bham.ac.uk

.

Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru

Institute of Welsh Politics